



**Ysgol Tregarth**



**Hapus yn ein Dysgu**

Annwyl Rhiant / Gwarchodwr,

Gair bach i groesawu chi yn ôl yn dilyn y gwyliau. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r egwyl ac yn barod am y flwyddyn addysgol newydd!

Mae wedi bod yn bleser croesawu'r plant yn ôl dydd Mawrth! Pawb yn edrych yn arbennig o smart yn eu gwisg ysgol. Hoffwn estyn croeso cynnes iawn i'r plant Meithrin sydd wedi ymuno gyda ni.

Mae blwyddyn gyffrous a llawn arall yn ein haros! Mae'r dyddiadur yn prysur lenwi.

Bydd y Cyngor Ysgol yn ysgrifennu atoch yn ystod yr wythnosau nesaf gan gyflwyno prif flaenoriaethau yr ysgol, fydd yn arwain at ddatblygu a gwella'r ysgol ymhellach yn ystod 2018 -19.

Ein gweledigaeth fel ysgol yw sicrhau fod anghenion pob plentyn, ym mhob agwedd o fywyd ysgol yn cael ei gyrraedd a hynny drwy brofiadau a chyfleoedd cyfoethog. Ein bwriad yw sicrhau ein bod yn cefnogi, herio ac annog y plant i fod yn ddysgwyr llwyddiannus annibynnol ac yn unigolion hapus, hyderus sydd ym meddu hunan-barch a pharch tuag at eraill.

Hyderaf y byddwch yn cefnogi ein gweledigaeth a disgwyliadau uchel ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

Fel prif addysgwyr ym mywyd eich plentyn, teimlaf ei fod yn bwysig i chi gael llais ac eich bod yn ymwybodol ein bod yn gweithredu polisi drws agored. Mae croeso i chi gysylltu gyda ni unrhyw amser os oes ganddoch unrhyw ymholiadau neu bryderon.

### **Clwb 3 y.h - 3.30 y.h**

Hoffwn eich atgoffa bod Clwb rhad ac am ddim ar gael i ddisgyblion dosbarth Miss Humphreys a Miss Jones (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) rhwng 3.00 y.h a 3.30 y.h os oes ganddynt frodyr neu chwirydd yn yr adran lau. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei gynnig i hwyluso trefniant casglu plant ar ddiwedd diwrnod ysgol i'r rhieni a gwarchodwyr sydd gyda phlant yn gorffen am 3 y.h a 3.30 y.h.

### **Clwb Hwyl Ardal Tregarth**

Cofiwch fod darpariaeth o glwb ar ôl ysgol yn cael ei gynnig gan Ysgol Tregarth. Mae'r Clwb yn darparu gofal o 3y.h - 5.30 y.h. Am fanylion pellach ac i archebu lle i'ch plentyn, cysylltwch gyda Miss Bethan Briggs ar 01248 600 735 / 07519723590.

## **Prydlondeb**

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser yn y bore. Bydd yr ysgol yn rhoi sylw penodol i brydlondeb y flwyddyn hon.

## **Newid i'r drefn plant yn cyrraedd yn hwyr**

Os yw eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr am unrhyw reswm, disgwylir i rieni / gwarchodwyr ddod a'i plentyn / plant i'r brif fynedfa gan ganu'r gloch. Bydd angen i chwi arwyddo eich plentyn i fewn.

Yn yr un modd, gofynnwn yn garedig i chi gasglu eich plant yn brydlon ar ddiwedd y dydd.

## **Gwisg Ysgol**

Mae'r disgyblion yn edrych yn arbennig o smart yn eu gwisg ysgol yr wythnos yma. Mae'n ddisgwylidig fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pob dydd.

Mae angen i bob plentyn gael gwisg addas ar gyfer eu gwersi addysg Gorfforol. Mae'n ddisgwylidig eu bod yn newid o'i gwisg ysgol i'w dillad addysg gorfforol ar gyfer eu gwersi.

## **Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol**


Gofynnwn yn garedig i chi fod yn ystyrlon wrth enwi neu drafod yr ysgol mewn unrhyw fodd ar wefannau cymdeithasol. Cofiwch ein bod yn gweithredu polisi drws agored, os oes ganddo'ch unrhyw bryder, cysylltwch gyda'r ysgol yn uniongyrchol.

Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch ymatebodd i'r holiaduron rhieni ar ddiwedd y tymor diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth a'ch barn ac yn gweithredu arnynt.

### **Miss Barnes**

Rhyfedd iawn oedd cychwyn y flwyddyn ysgol dydd Llun heb gwmni hwyliog Miss Barnes.

Fel mae'r mwyafrif ohonoch yn gwybod erbyn hyn, mae Llinos wedi derbyn newyddion trist iawn am ei iechyd yn ystod gwyliau'r haf, ac oherwydd hyn wedi gorffen yn ei swydd fel cymhorthydd yn Ysgol Tregarth. Mae gan holl blant, staff a dwi'n siŵr chithau fel rhieni a gwarchodwyr feddwl y byd o Miss Barnes. Mawr yw ein diolch i Llinos am ei holl waith, ymroddiad, cyfeillgarwch a'i gofal annwyl o'r holl blant sydd wedi mynychu'r ysgol dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Rydym yn meddwl am Llinos, Oliver a'r teulu yn ystod y cyfnod anodd hwn. 

Mae swm anhygoel o arian eisoes wedi ei godi i Llinos ac Oliver ganddoch fel rhieni a'r gymuned yn ystod gwyliau'r haf. Diolch i bawb sydd wedi bod wrthi yn brysur yn trefnu gweithgareddau ac i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn hael at yr achos. Os dymunwch gyfrannu, mae posib gwneud drwy'r ysgol.

## Dyddiadau Pwysig i'ch calendr!

Dydd Llun 17.9.18	Diwrnod beicio i'r ysgol! Bydd gweithgareddau beicio wedi ei drefnu ar dir yr ysgol i blant o flwyddyn 1 i flwyddyn 6! Mwy o fanylion i ddilyn. Bydd yn weithgaredd wythnosol am 6 wythnos!
Wythnos 17.9.18	Profion Mewnol Mathemateg, darllen a sillafu. Dim byd i boeni amdanynt! Mae'r plant yn eistedd y profion ddwywaith y flwyddyn mewn sefyllfa arferol anffurfiol dosbarth. Mae'n fodd effeithiol i dracio cynnydd ein disgyblion.
Dydd Gwener 21.9.18	Gwasanaeth Dosbarth Ffrydlas - Blwyddyn 5 a 6. Mrs Llinos Williams. 9.00 y.b
Dydd Gwener 28.9.18	Bydd y Cyngor Ysgol yn trefnu gweithgaredd i gyd fynd a Bore Coffee McMillan. Manylion pellach i ddilyn
Dydd Gwener 12.10.18	Gwasanaeth Dosbarth Ogwen. Blwyddyn 3 a 4. Mr Carwyn Roberts. 9.00 y.b
Dydd Llun 15.10.18 a Dydd Mawrth 16.10.18	Noson Rhieni
Dydd Mercher 17.10.18	Tynnu lluniau ysgol Tempest. Manylion pellach i ddilyn.
Dydd Llun 22.10.18	Wythnos Lles a Ffitrwydd. Wythnos gyffrous yn llawn gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'i lles a'i ffitrwydd. Bydd nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu yn ymwneud a bwyta'n iach, cadw'n heini, lles emosiynol ac iechyd meddwl. Bydd cyfle i chi rieni ymuno mewn gweithgareddau!
Dydd Gwener 26.10.18	Ysgol yn cau am hanner tymor. Wythnos o wyliau.
Dydd Llun 5.11.18	Diwrnod HMS (I'w gadarnhau)
Dydd Iau 15.11.18	Gwasanaeth Dosbarth Llywelyn. Blwyddyn 1 a 2. 9 y.b
Dydd Gwener 16.11.18	Gwasanaeth Dosbarth Idwal. Meithrin a Derbyn. 2.30 y.h
Dydd Mercher 12.12.18	Cyngerdd Nadolig!!

**Diolch i chi am eich cefnogaeth a chydweithrediad.**

**Mrs Lliwen Jones**

**Pennaeth Ysgolion Tregarth ac Bodfeurig**

